

Y Mab Coll



TRUEWAY KIDS.COM

Cyflwyniad

Yn y wers hon, byddwn ni'n parhau i edrych ar ddamhegion Iesu am bethau coll drwy ganolbwyntio ar y mab coll neu afradlon yn Luc 15:11-32.

Dyma rai o'n prif bwyntiau:

- Mae Duw yn llawn gras
- Angen achubiaeth ar bawb
- Gallwn bob amser ddychwelyd at Dduw

Canllaw Gwers

Atgoffwch eich plant fod y stori hon yn ddameg a ddysgodd Iesu i ddysgu gwersi pwysig inni.

Cyflwynwch y tri phrif gymeriad. Gall argraffu a thorri'r lluniau yn y wers hon neu ddewis teganau meddal i gynrychioli'r cymeriadau fod o gymorth. Dewiswch un i'r tad a dau arall i gynrychioli'r meibion.

Rhannwch sut roedd y tad yn caru ei feibion yn fawr iawn. Codwch y brawd hŷn a rhannu sut roedd yn fab ardderchog. Roedd yn ufuddhau i'r rheolau, gweithio'n galed, parchu ei dad, ac yn y blaen. Gofynnwch i'ch plentyn enwi pethau da eraill i blant eu gwneud.

Nesaf, codwch y mab iau. Esboniwch ei fod yn hunanol a doedd o ddim yn poeni am eraill. Gofynnwch i'ch plentyn enwi rhai pethau hunanol i'w gwneud. Dangoswch sut y gofynnodd y mab iau i'w dad roi hanner popeth yr oedd yn berchen arno er mwyn iddo wneud yr hyn a ddymunai a byth gorfod gweld ei deulu eto. Meddyliwch, Sut gwnaeth hyn i'r tad deimlo?

Symudwch y mab iau oddi wrth ei deulu a darllen Luc 15:13. Esboniwch sut y cymerodd yr holl bethau da a roddodd ei dad iddo a dechrau eu gwastraffu. Siaradwch am sut rydyn ni'n gwastraffu pethau. Rhannwch sut yr oedd yn meddwl y gallai brynu hapusrwydd. Gofynnwch i'ch plentyn pa bethau y bydden nhw'n eu prynu i'w gwneud yn hapus?

Rhannwch pa mor fuan ar ôl hynny, gwariodd y mab iau ei arian i gyd a doedd dim bwyd ganddo i'w fwyta. Daeth o hyd i swydd yn bwydo moch. Roedd e mor llwglyd roedd e am fwyta bwyd y moch. Os oes gennych amser, rhowch beth gwastraff bwyd mewn powlen a gofynnwch i'ch plant a hoffen nhw ei fwyta i ginio.

Darllenwch Luc 15:17. Rhannwch sut "y daeth at ei synhwyrâu" a phenderfynodd y byddai'n dychwelyd at ei dad a dweud sori. Dyma amser gwych i chi rannu tystiolaeth gyda'ch plant, eich tystiolaeth chi neu rywun rydych chi'n ei adnabod. Rhannwch pryd a sut daethoch chi at eich synhwyrâu a dychwelyd at Dduw.

Gofynnwch i'ch plentyn sut mae'n teimlo pan fydd yn rhaid iddo ddweud sori Ofn y byddan nhw'n cael eu gwrthod? Embaras gan yr hyn a wnaethant?


Darllenwch Luc 15:20-25. Symudwch y cymeriadau o gwmpas i ddangos y mab yn dychwelyd a'r tad yn rhedeg i'w gyfarfod. Atgoffwch eich plant fod Iesu yn ein dysgu ni sut mae Duw yn ymateb pan ddychwelwn ato Ef. Rhannwch sut mae Duw yn raslon ac amyneddgar. Gallwn ni bob amser edifarhau a throi ato Ef.

Ailgyflwynwch y brawd hŷn a gofyn pa frawd rydych chi'n feddwl mae Iesu am i ni ei gopio? Darllenwch Luc 15:25-32 a rhannwch sut roedd yn genfigennus ac yn meddwl ei fod yn haeddu mwy o gariad.

Esboniwch fod y ddau frawd yn ymddangos yn wahanol iawn ond roedd ganddynt lawer yn gyffredin. Roedd gan y ddau broblem gyda phechod ac roedd angen dweud sori wrth y tad. Rhannwch sut dywedodd Iesu 'r ddameg hon i ddangos bod angen maddeuant ar bawb. Hyd yn oed os ydyn ni'n gwneud pethau da ar y tu allan, mae Duw yn gallu gweld sut ydyn ni ar y tu mewn.

Gweddïwch gyda'ch gilydd a diolch i Dduw am Ei ras rhyfeddol.

Y Mab Coll



Pan welodd ei dad ef, roedd wrth ei fodd.

Rhedodd ato, taflu ei freichiau o'i gwmpas, a'i groesawu yn ôl i'r teulu.

Taflodd barti i ddathlu bod ei fab yn fyw a 'nôl gartref.

Dyweddodd Iesu, "Dyma sut mae Duw yn dathlu o flaen ei angylion pan mae un pechadur yn troi ato."



Dyweddodd Iesu stori am dad a'i ddau fab.

Un diwrnod, gofynnodd y mab ifancaf i'w dad am hanner ei bethau.

Roedd am adael ei deulu a gwneud beth bynnag oedd e eisiau mewn lle pell.

Roedd ei dad yn drist am hyn, ond fe wnaeth beth roedd ei fab eisiau.




Roedd y mab mor hapus!

Roedd e'n gwneud popeth roedd e eisiau.

Prynodd ddillad newydd, mynd i bartion, a gwneud ffrindiau newydd.

Ond yn fuan, rhedodd ei arian allan, ac anghofiodd ei ffrindiau newydd bopeth amdano.



Daeth y mab o hyd i swydd yn bwydo moch.

Roedd e mor llwglyd. Roedd o eisiau bwyta bwyd y moch.

Meddyliodd, "Dw i wedi bod mor wirion."

Dwi'n mynd i fynd yn ôl at fy nhad a dweud sori.

Bydda i'n gofyn iddo a alla i fod yn was iddo.

Gêmau a Gweithgareddau

Rhochian moch

Bydd angen o leiaf tri pherson i chwarae'r gêm hon, ond gorau po fwyaf o bobl. Dewiswch un person i wynebu'r wal.

Y tu ôl iddynt, dylai un person wneud sŵn mochyn. Mae'n rhaid i'r person sy'n wynebu'r wal ddyfalu pwy sy'n gwneud y sŵn.



Ras yn ôl

Marciwch linell gychwyn. Dywedwch wrth eich plant am gerdded i ffwrdd yn araf o'r lein nes i chi weiddi "Gartref." Dylen nhw rasio'n ôl cyn gynted â phosib.

Atgoffwch nhw sut mae Duw am i bobl ddychwelyd ato yn gyflym.

Gêm Fwrdd

Yn y wers yr wythnos hon, mae tudalen ar gyfer gêm fwrdd. Defnyddiwch wrthrychau bach fel marcwyr. Rholiwch ddis a gwnewch eich ffordd drwy stori'r mab afradlon ac yn ôl at y tad. Adolygwch y stori wrth i chi chwarae.



7

6


5

4

3

2

1




8

9

10

11

12



23

22

21

20

19

18

17


16

15

14

13

12




Rhannwch gacennau rhwng y plant








Helpwch y mab i ddod o hyd
i'w ffordd yn ôl at ei dad



Rowch yr anifail bach gyda'i riant



Nodwch 7 gwahaniaeth



Arwydd Croeso Gartref



Yr hyn sydd ei angen arnoch:

Deg ffon lolipop (neu gallwch ddefnyddio cerdyn a sgipio cam 1)

Glud

Corlannau

Rhuban

Beth i'w wneud:





Gludwch y ffyn lolipop at ei gilydd i wneud arwydd fel y dangosir yn y llun. Gadewch iddynt sychu.




Addurnwch eich arwydd 'CROESO GARTREF' unrhyw ffordd rydych chi eisiau.



Gludwch ruban i'w hongian.









Amser Addoli

Argymhellir caneuon addoli, heb eu cynhyrchu gan Trueway Kids. Fideos 'YouTube' i'w defnyddio at ddefnydd personol yn unig.

Ŷ Mab Coll - Stori o'r Beibl i blant

<https://youtu.be/WKRS7sBzWnQ>

Love the Lord

<https://youtu.be/vdMlxCdIY-c>

Looking at My Heart

<https://youtu.be/5zWypq92UCU>

Detective Shuffle

<https://youtu.be/4AMRQn7loZI>



Amser Gweddi

Diolch i Dduw ei fod e'n maddau i ni ac yn ein croesawu ni'n ôl.

Gofynnwch iddo eich helpu i aros yn agos ato a pheidio â bod yn genfigennus o bobl eraill.

Wythnos Nesaf

DAMEG YR HEUWR

Os nad ydych wedi gwneud yn barod, cytunwch i dderbyn gwersi yn y dyfodol trwy e-bost.

truewaykids.com/subscribe/

